## P-04-477 Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)

**Geiriad y ddeiseb**:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r Bil Rheoli Cŵn Cymru.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, ac sy'n byw yng Nghymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru) i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â chŵn peryglus a bygythiol, ac i beidio â dibynnu ar gynigion tameidiog Llywodraeth y DU sydd wedi'u gosod allan yn ei Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft. Cafwyd esboniad cychwynnol o'r Bil hwn yn y Papur Gwyn "Putting Victims First, More Effective Responses to Anti-social Behaviour".

Cytunwn â Llywodraeth Cymru sy'n dweud yn ei datganiad fod Hysbysiad Rheoli Cŵn yn amlwg yn well na'r holl ddeddfwriaeth bresennol gan nad oes angen mynd ag achosion gerbron y llys ac, felly, mae llai o bwysau ar y pwrs cyhoeddus. Credwn hefyd fod cynigion Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys pedwar dull gorfodi gwahanol, sef-

- gwaharddebau i atal niwsans annoyance;
- gorchmynion ymddygiad troseddol
- pwerau gwasgaru
- hysbysiadau amddiffyn cymunedol

yn llawer rhy gymhleth, trwsgl a biwrocrataidd ac y byddant yn arwain at oedi. Rhaid gwneud cais i'r llys cyn rhoi dau ohonynt ar waith - gwaharddebau a gorchmynion ymddygiad troseddol.

Credwn fod yr un Hysbysiad Rheoli Cŵn cynhwysfawr a gynigir i Gymru yn ddull llawer iawn gwell ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i lunio deddf sy'n seiliedig ar y cysyniad hwn yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Rydym yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y canlynol: (i) casgliadau hynod feirniadol Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ynghylch adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sef 'Rheoli Cŵn a Lles' sy'n dweud bod cynigion Llywodraeth y DU yn 'rhy syml' ac yn 'resynus o annigonol'. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod DEFRA a'r Swyddfa Gartref yn cyflwyno Hysbysiadau Rheoli Cŵn a (ii) y ffaith bod y cyrff sydd wedi uno yn yr ymgyrch, sef

undebau, elusennau anifeiliaid, yr heddlu a milfeddygon hefyd  yn anfodlon ar y cynigion.

**Prif ddeisebydd:**  Cyng. Dilwar Ali

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 30 Ebrill 2013

**Nifer y llofnodion** : 1119